Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005

Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

Ysgol Uwchradd Tregaron
Heol Llambed
Tregaron
Ceredigion
SY25 6HG

Rhif yr Ysgol: 6674046

Dyddiad yr Arolygiad: 08/05/07

gan

Dr. Neil Trevor Jones
78849

Dyddiad Cyhoeddi: 11 Gorffennaf, 2007

O dan rif contract Estyn: 1204206

Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Uwchradd Tregaron fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Uwchradd Tregaron rhwng 08/05/07 a 11/05/07, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Dr. Neil Trevor Jones. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **byr**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen

Cyd-destun 1

Crynodeb 3

Argymhellion 9

Safonau 10

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? 10

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant 15

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? 15

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? 19

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? 23

Arweinyddiaeth a rheolaeth 27

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? 27

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? 29

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? 31

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad 34

Atodiadau 35

1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol 35
2 Data a dangosyddion ysgol 36
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 37
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad 39
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu 40

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Ysgol gyfun gymunedol naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion a myfyrwyr 11 – 18 oed yw Ysgol Uwchradd Tregaron. Mae'n cael ei chynnal gan Awdurdod Addysg Lleol Sir Geredigion. Ar hyn o bryd, mae ganddi 368 o ddisgyblion, gan gynnwys 73 myfyriwr yn y chweched dosbarth (B12 a B13), sydd yn nifer ychydig yn uwch nag yn ystod yr arolygiad blaenorol (355). Mae nifer y disgyblion ymhob grŵp blwyddyn yn amrywio rhwng 52 a 64. Mae'r ysgol yn nodi bod y disgyblion yn cynrychioli'r ystod gallu llawn. Gan gynnwys y pennaeth, mae 29.3 (cyfateb i amser llawn) o athrawon. Mae 25 o athrawon llawn amser ac wyth rhan – amser.

2. Mae'r ysgol yn gwasanaethu tref fechan Tregaron a'r ardal wledig o amgylch. Mae wyth o ysgolion cynradd yn y dalgylch, sy'n ardal ôl -amaethyddol yn bennaf ac yn cynnwys ardal Cymunedau yn Gyntaf ac Amcan 1. Mae tua 11% o'r disgyblion wedi'u cofrestru fel rhai sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n debyg i ffigur gyfartalog y Sir ond yn is na'r canran cenedlaethol (17%). Mae 57% o fyfyrwyr y chweched dosbarth yn derbyn grant cynnal. Mae pob un o'r disgyblion a'r myfyrwyr yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

3. Mae gan 12 disgybl (tua 4% o ddisgyblion B7 - B11) ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae hyn yn ddigon tebyg i'r ganran genedlaethol (3.4%). Yn ogystal, mae 80 disgybl (tua 27% o ddisgyblion B7 - B11) ar un o gamau gweithredu ysgol ac ysgol a mwy'r Côd Ymarfer ar gyfer AAA. Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi ei ddatgymhwyso ar gyfer un disgybl. Mae 12 o ddisgyblion yng ngofal Awdurdod Lleol.

4. Daw 39% o'r disgyblion o gartrefi lle mae Cymraeg yn brif iaith yr aelwyd, a daw 61% o gartrefi lle mae Saesneg yn brif iaith y cartref. Mae pob ysgol gynradd yn nalgylch yr ysgol yn ysgolion Categori 'A' (ysgolion gyda'r Gymraeg yn brif gyfrwng gwaith y plant yng nghyfnod allweddol 1). Mae oddeutu 3% o'r disgyblion yn newydd ddyfodiaid i'r ardal, ac heb unrhyw Gymraeg o gwbl. Mae tua 78% o'r disgyblion yn dilyn cwrs Cymraeg Iaith Gyntaf.

5. Penodwyd y pennaeth presennol i'r ysgol ym mis Ebrill, 2003. Arolygwyd yr ysgol yn flaenorol ym mis Tachwedd, 2001.

6. Arolygiad 'byr' a dderbyniodd yr ysgol ym mis Mai, 2007.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

7. Prif flaenoriaethau'r ysgol, fel eu nodwyd yn y cynllun datblygu ysgol cyfredol, ar gyfer 2006 – 09 yw:

- safonau dysgu ac addysgu;
- taclo tangyflawni;
- monitro a hunan werthuso;
- adeiladau a chyfleustera;
- Blwyddyn 12 / 13, a
- hybu defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ymysg disgyblion a staff.

8. Targedau meintiol yr ysgol ar gyfer 2007 yw'r canlynol:

Dangosyddion cyfnod allweddol 3	**% ar lefel 5 neu fwy yn yr ysgol**
Cymraeg	71
Saesneg	76
Mathemateg	78
Gwyddoniaeth	78
Dangosydd Pynciau Craidd	66
Gwahaniaeth mewn perfformiad bechgyn a merched	0

Dangosyddion cyfnod allweddol 4	**% yn ennill y cymhwyster**
% cofrestrwyd ar gyfer o leiaf 1TGAU	100
5 pwnc TGAU yn ennill gradd A* - C	67
5 pwnc TGAU yn ennill gradd A* - G	94
Dangosydd Pynciau Craidd	52
% yn gadael yn ddigymhwyster	0
Gwahaniaeth mewn perfformiad bechgyn a merched	15
% absenoldebau anawdurdodedig	1.6

Crynodeb

9. Mae Ysgol Uwchradd Tregaron yn ysgol dda ag iddi nifer o ragoriaethau; mae ei gwreiddiau'n ddwfn yn ei bro a'i chymuned. Mae'r ysgol yn llwyddo'n dda iawn i gynnig ystod eang iawn o brofiadau ffurfiol ac allgyrsiol. Mae ansawdd arbennig y gofal o fewn yr ysgol yn caniatáu i ddisgyblion a myfyrwyr ddysgu mewn awyrgylch gartrefol a chynhaliol.

A) Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2
3 Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	1
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	1
5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	2
6 Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
7 Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	3

10. Er ei fod yn cytuno â mwyafrif y barnau a wnaeth yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu, mae'r tîm arolygu wedi dyfarnu gradd is i dri chwestiwn allweddol, sef cwestiynau allweddol 2, 6 a 7.

B) Safonau

11. Gan mai arolygiad byr a gafodd yr ysgol, nid arolygwyd unrhyw bynciau unigol ac ni fynegir barn, o'r herwydd, ar safonau cyflawniad mewn pynciau unigol.

Ansawdd canlyniadau profion ac arholiadau allanol

12. Bu cynnydd cyffredinol yng nghanlyniadau profion ac asesiadau cyfnod allweddol 3 ers yr arolygiad blaenorol ac yn ystod y tair blynedd diwethaf. Rhwng 2004 a 2006, mae canran y disgyblion sy'n ennill y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) wedi codi o fod ychydig o dan 50% i fod dros 70%, sy'n gosod yr ysgol yn y chwartel uchaf o ysgolion tebyg ar draws Cymru.

13. Yng nghyfnod allweddol 4, bu gwelliant cyffredinol ym mherfformiad disgyblion yr ysgol yn yr arholiadau Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch (TGAU). Gwelwyd cynnydd o dros 20% yn y ganran sy'n ennill 5 neu fwy o bynciau gyda graddau A*-C dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn y chwartel uchaf o ysgolion tebyg ar draws Cymru. Fodd bynnag, mae canran y disgyblion sy'n ennill y DPC ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 wedi bod yn y chwartel isaf mewn dwy o'r tair blynedd olaf, yn bennaf oherwydd perfformiad gwan rhai disgyblion mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

14. Mae perfformiad myfyrwyr yn yr arholiadau lefel 'A' wedi bod yn gyson dda dros y tair blynedd olaf, gyda sgôr pwyntiau cyfartalog myfyrwyr a'r ganran sy'n llwyddo i ennill graddau A-C yn uwch na'r cyfartaledd sirol a Chymru ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf.

Safonau yn y medrau allweddol

15. Mae'r disgyblion a'r myfyrwyr yn cyflawni safonau da yn eu medrau allweddol. Mae medrau llythrennedd y disgyblion yn dda yn y Gymraeg ac yn dda gyda nodweddion rhagorol yn y Saesneg. Cyflawna'r myfyrwyr safonau llythrennedd da iawn yn y ddwy iaith. Mae medrau rhifedd a chymhwysedd dwyieithog y disgyblion a'r myfyrwyr yn dda, ond parhau i ddatblygu mae medrau'r disgyblion mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Y cynnydd a wna'r dysgwyr wrth ddysgu

16. Mae'r cynnydd a wna disgyblion a myfyrwyr yn eu dysgu yn dda. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac agweddau cyfrifol tuag at eu gwaith.

17. Mae disgyblion a myfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn.

18. Fodd bynnag, nid yw disgyblion a myfyrwyr yn gwbl glir o'u cryfderau a'u gwendidau ym mhob pwnc, a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella.

Safonau yn y medrau personol, cymdeithasol a dysgu

19. Mae agwedd disgyblion a myfyrwyr tuag at ddysgu yn gadarnhaol ac aeddfed, ac mae eu hymddygiad yn rhagorol, mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol.

20. Maent yn cydweithio'n dda iawn â'i gilydd ac yn arddangos parch at, a gofal a phryder am eraill.

21. Mae ymrwymiad cryf iawn gan ddisgyblion a myfyrwyr i'w bro ac maent yn cyfrannu'n rhagorol i weithgareddau cymunedol.

22. Mae lefel presenoldeb wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond mae canran presenoldeb y disgyblion dros y tri thymor diwethaf (90.3%) yn parhau yn is na'r targed cyfredol (93%) a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ar gyfer ysgolion uwchradd, ac yn is na'r targedau a osodwyd gan yr ysgol ei hunan a'r sir.

C) Ansawdd yr addysgu a'r hyfforddiant

23. Mae ansawdd yr addysgu yn dda a dim diffygion pwysig.

24. Mae'r tabl canlynol yn dangos y graddau a ddyfarnwyd i ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arsylwyd trwy'r ysgol.

	Gradd 1	**Gradd 2**	**Gradd 3**	**Gradd 4**	**Gradd 5**
Ysgol Gyfan (50 o wersi)	**22 %**	**58 %**	**20 %**	**0 %**	**0 %**

25. Mae canran y gwersi y rhoddwyd gradd 1 neu 2 iddynt, sef 80%, yn rhagori ar y darlun cenedlaethol a ddisgrifiwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2005-2006. Yn genedlaethol, mae ansawdd yr addysgu'n dda (gradd 1 a 2) mewn 69% o wersi ac mae 17% ohonynt yn radd 1.

26. Mae nodweddion rhagorol y gwersi'n cynnwys:

- cynllunio a chyflwyno gofalus iawn i ysbrydoli a chymell disgyblion a myfyrwyr trwy gyfrwng amrywiaeth eang o weithgareddau;
- cyfleoedd da iawn i ddisgyblion a myfyrwyr ddatblygu ystod o fedrau allweddol;
- cyfleoedd yn cael eu cynllunio'n ofalus i ddisgyblion weithio'n llwyddiannus fel unigolion, mewn parau ac mewn grwpiau, a
- defnydd effeithiol o gwestiynu treiddgar i ymestyn cynigion y disgyblion.

27. Ymhlith nodweddion da'r addysgu mae:

- amcanion eglur i'r gwersi, sy'n cael eu rhannu, eu defnyddio, a'u hadolygu ar y diwedd;
- cyflymder ac amseru priodol i'r gweithgareddau;
- technegau cwestiynu da i gadarnhau gwybodaeth flaenorol ac i gynorthwyo'r dysgu, a
- gwybodaeth bynciol gadarn.

28. Mewn ychydig o wersi, nid oedd her ddigonol yn y gweithgareddau ac roedd cwestiynu caeëdig yn arwain at ddiffyg cyfleoedd i ddisgyblion a myfyrwyr feithrin sgiliau dysgu annibynnol. Yn ogystal, roedd diffyg cynllunio bwriadus i ddatblygu medrau dwyieithog disgyblion a myfyrwyr.

29. Mae cyfundrefn asesu'r ysgol yn dangos nodweddion da a dim diffygion pwysig.

30. Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 3, ynghyd â rheoliadau'r byrddau arholi yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Cydymffurfir â gofynion asesu disgyblion a myfyrwyr sydd ag anghenion addysgu ychwanegol.

31. Mae gwaith y disgyblion a'r myfyrwyr yn cael ei farcio'n gyson, ond mewn rhai achosion nid yw'r marcio yn cynnig adborth digon penodol i ddisgyblion a myfyrwyr ar sut i wella eu gwaith.

32. Mae trefn a strwythurau pendant yn eu lle i adrodd i rieni a gwarcheidwaid ar gynnydd disgyblion a myfyrwyr.

Ch) Y graddau y mae'r addysg yn bodloni anghenion yr ystod o ddisgyblion

33. Mae nifer o nodweddion rhagorol yng nghwricwlwm yr ysgol, sy'n cynnwys:

- ehangder y ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 3, sy'n cael ei gyfoethogi trwy ddarparu gwersi drama a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i bawb;

- hyblygrwydd cwricwlwm cyfnod allweddol 4, sy'n caniatáu dewisiadau agored i bob disgybl ac sy'n darparu rhaglenni addas trwy'r TGAU, Lefel Mynediad a'r Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol i ddisgyblion o wahanol alluoedd a thueddfryd, ac
- ehangder y ddarpariaeth yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang iawn o gyrsiau lefel 'A', ynghyd â chyrsiau galwedigaethol, sy'n boblogaidd iawn gyda'r myfyrwyr.

34. Mae'r cysylltiadau rhagorol a sefydlwyd gydag ysgolion cynradd y dalgylch yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y cwricwlwm ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3.

35. Er bod pob pwnc ar draws y cwricwlwm yn cyfrannu at ddatblygiad y medrau allweddol, nid oes proses gydlynus o gynllunio ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth a'i monitro.

36. Cyfoethogir y cwricwlwm drwy gynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad personol y disgyblion a'r myfyrwyr ac yn nodwedd ragorol o ddarpariaeth yr ysgol.

37. Mae nodweddion rhagorol yn y modd y mae'r ysgol yn hybu datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion a'r myfyrwyr. Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar sy'n meithrin gwerthoedd moesol a chymdeithasol yn naturiol. Er hynny, mae cynllunio ar gyfer hybu datblygiad ysbrydol y disgyblion a'r myfyrwyr yn llai amlwg.

38. Mae partneriaethau'r ysgol gyda rhieni, ysgolion a sefydliadau eraill yn atgyfnerthu profiadau dysgu'r disgyblion a'r myfyrwyr yn sylweddol.

39. Mae nifer o nodweddion da yn y modd y mae cwricwlwm yr ysgol yn ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach.

40. Mae'r nodweddion da yn cynnwys:

- cysylltiadau pwrpasol gyda diwydiant a chyflogwyr, er mwyn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o fyd gwaith, a
- chyrsiau galwedigaethol, sy'n cael eu cyfoethogi gan gydweithio agos iawn â busnesau lleol i gynnig profiadau perthnasol ac ymarferol.

D) Ansawdd y gofal a'r cyfarwyddyd a dderbynia'r disgyblion a myfyrwyr

41. Mae'r gofal, yr arweiniad a'r gefnogaeth a dderbynia'r disgyblion a'r myfyrwyr yn dda gyda nodweddion rhagorol.

42. Mae i'r ysgol ethos cymunedol clos a gofalgar, lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus; mae'r berthynas rhyngddynt a'i gilydd a chyda'r athrawon yn dda iawn. Mae safon y gofal er lles y disgyblion yn ardderchog.

43. Sefydlwyd cyswllt bugeiliol ardderchog gyda'r ysgolion cynradd, sy'n sicrhau trosglwyddiad hwylus ac esmwyth i'r disgyblion i'r ysgol uwchradd.

44. Mae i ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol nodweddion da gyda rhai'n rhagorol. Mae'r ddarpariaeth yn unol â Chôd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig. Gwna'r disgyblion hyn gynnydd da iawn, gyda nifer da ohonynt yn mynd ymlaen i ennill cymwysterau ôl-16 yn yr ysgol ac mewn colegau addysg bellach ac uwch.

45. Mae cyfle cyfartal yn cael ei arddangos ym mhob gweithgaredd, gyda chyfle i bob disgybl gymryd rhan ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

46. Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau effeithiol iawn i ddelio ag ymddygiad gormesol, gan gynnwys bwlio. Sefydlwyd ethos lle nad oes lle i wahaniaethu nac aflonyddu. Mae ymddygiad rhagorol y disgyblion yn dystiolaeth o ffrwyth y trefniadau hyn.

47. Mae'r ysgol wedi cymryd camau cadarnhaol i sicrhau nad yw disgyblion anabl yn dioddef o gael eu trin yn llai ffafriol ac mae'n ymateb yn sensitif a chynhaliol i anghenion disgyblion sydd ag anableddau.

DD) Arweinyddiaeth a rheolaeth

48. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth strategol yr ysgol yn dda a dim diffygion pwysig.

49. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n rhoi cyfeiriad eglur a phendant i waith yr ysgol. Mae'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) yn rhannu gweledigaeth y pennaeth ac yn cydweithio'n dda iawn.

50. Mae'r arweinyddiaeth a ddarperir gan y pennaeth a'r UDRh wedi arwain at sefydlu cymuned wâr gyda gwerthoedd cadarn, sy'n rhoi bri ar safonau uchel, ystod eang o brofiadau i'r disgyblion a'r myfyrwyr a hynny mewn hinsawdd gartrefol a gofalgar. Mae adnabyddiaeth rheolwyr a staff o'r disgyblion a'r myfyrwyr a'u gofynion yn ardderchog.

51. Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a rheolaeth ganol yn anwastad. Nid yw'r prosesau hunan arfarnu adrannol bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar safonau cyflawniad y disgyblion ac amhendant yw'r cyswllt rhwng canfyddiadau'r arfarniadau a'r cynlluniau datblygu adrannol.

52. Yn dilyn trafodaeth gyda'r pennaeth, gosodir targedau meintiol heriol i'r adrannau, ond ni roddir sylw digonol i berfformiad blaenorol y disgyblion. Serch hynny, mae'r broses o adnabod disgyblion a myfyrwyr sy'n tangyflawni yn effeithiol.

53. Mae'r ysgol wedi sefydlu ethos hunan arfarnu cryf sy'n arenwi ac yn rhannu arfer dda ac yn adnabod materion sydd angen eu datblygu. Mae gan yr ysgol strwythurau a threfniadau monitro cadarn sy'n defnyddio dulliau amrywiol a phriodol i gasglu tystiolaeth.

54. Mae prosesau cynllunio'r ysgol ar gyfer gwelliant yn dda ac yn rhoi sylw teg i wybodaeth sy'n deillio o brosesau hunan arfarnu'r ysgol.

55. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol a brwdfrydig ac yn cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol. Mae'r corff yn cydweithio'n dda gyda'r UDRh i osod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol.

56. Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod yr ysgol yn cyfarfod â gofynion cyrsiol a gofynion statudol eraill.

E) Defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau'r ysgol a gwerth am arian

57. Mae'r ysgol wedi'i staffio'n dda, gyda nifer digonol o athrawon i gyflwyno'r cwricwlwm cytunedig.

58. Mae digon o lyfrau ac adnoddau dysgu eraill yn y mwyafrif helaeth o bynciau.

59. Mae'r adeiladau'n ddiogel ac yn addas ar gyfer nifer y staff a'r disgyblion ar y gofrestr. Mae mynediad i'r anabl yn dda ac mae cynllun hygyrchedd priodol wedi'i lunio ar gyfer gwelliannau pellach.

60. Mae'r gyllideb ysgol yn cael ei monitro'n ofalus o ddydd i ddydd, gydag adroddiadau ariannol priodol yn cael eu darparu i'r llywodraethwyr o leiaf unwaith y tymor.

61. Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, penderfynodd y corff llywodraethol, wedi ymgynghori â'r Awdurdod Unedig (AU), fabwysiadu cyllideb gyda diffyg cynlluniedig o £107,000. Bydd hynny, ynghyd â'r cynllun busnes cysylltiedig, yn diogelu'r ddarpariaeth gwricwlaidd bresennol hyd nes y gweirhredir yn llawn fformiwla gyllido ddiwygiedig yr AU. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei ystyried yn arfer cyllidol da gan y Comisiwn Archwilio.

62. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i ganfod a diwallu anghenion datblygiad proffesiynol pob aelod o'r staff, gan gynnwys staff cefnogi.

63. O ystyried y sefyllfa yn ei chyfanrwydd, o safbwynt safonau da cyrhaeddiad y disgyblion a'r myfyrwyr, ansawdd da'r addysgu, y ddarpariaeth gwricwlaidd ragorol ac ansawdd rhagorol y gefnogaeth a'r arweiniad i'r disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth am arian.

F) Pa mor dda y mae'r ysgol wedi mynd i'r afael a'r materion a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol

64. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i'r materion allweddol a nodwyd yn adroddiad yr arolygiad blaenorol.

Argymhellion

Mae angen i'r ysgol:

A1: *gynyddu canran y disgyblion sy'n llwyddo i ennill y DPC yn arholiadau allanol cyfnod allweddol 4;

A2: * barhau i ddatblygu medrau dwyieithog y disgyblion, eu medrau wrth gymhwyso rhif a'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, trwy gynllunio bwriadus a chydlynus ar draws y cwricwlwm;

A3: * sicrhau bod gan ddisgyblion a myfyrwyr, ym mhob pwnc, ddealltwriaeth o'r cryfderau a'r gwendidau yn eu gwaith, a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella;

A4: *sicrhau bod y prosesau hunan arfarnu adrannol yn rhoi mwy o bwyslais ar safonau cyflawniad, eu bod wedi'u sylfaenu ar dystiolaeth uniongyrchol a bod cysylltiad cryfach rhwng canfyddiadau'r broses hunanarfarnu a'r cynlluniau datblygu adrannol, a

A5: pharhau i weithio gyda swyddogion yr AU, er mwyn gweithredu'r cynllun busnes a fabwysiadwyd gan y corff llywodraethol, a sefydlu cyllideb ysgol sy'n dilyn argymhellion y Comisiwn Archwilio o fewn yr amserlen gytunedig.

* Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol ar gyfer 2006-09 yn cynnwys camau i ddelio â'r argymhellion hyn.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio ei gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o gael yr adroddiad, gan ddangos yr hyn fydd yr ysgol yn ei wneud ynghylch yr argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

65. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd a ddyfarnwyd yn hunan arfarniad yr ysgol.

Llwyddiant disgyblion i gyrraedd nodau dysgu cytunedig

Ansawdd canlyniadau profion ac arholiadau allanol

Cyfnod allweddol 3

66. Bu cynnydd cyffredinol yng nghanlyniadau profion ac asesiadau cyfnod allweddol 3 ers yr arolygiad blaenorol ac yn ystod y tair blynedd diwethaf.

67. Yn 2004, roedd canlyniadau'r profion yn gosod yr ysgol yn y chwartel uchaf ar gyfer gwyddoniaeth ond yn y chwartel isaf ar gyfer Saesneg, mathemateg, Cymraeg a'r DPC, o'i chymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru, o ran lefelau prydau ysgol am ddim.

68. Roedd canlyniadau'r disgyblion yn 2005 yn gosod yr ysgol yn y chwartel uchaf ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth, uwchben y canolrif ar gyfer Cymraeg a'r DPC ac islaw'r canolrif ar gyfer Saesneg.

69. Yn 2006, roedd canlyniadau'r asesiadau yn gosod y DPC yn y chwartel uchaf o ysgolion tebyg, mathemateg a Chymraeg uwchben y canolrif a gwyddoniaeth a Saesneg islaw'r canolrif.

70. Roedd y canran o ddisgyblion a lwyddodd i ennill y DPC yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2005 a 2006.

71. Mae ystadegau gwerth ychwanegol Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ar gyfer 2005-06 yn dangos i'r ysgol ychwanegu gwerth ychwanegol sylweddol i'r DPC yn y cyfnod allweddol hwn.

Cyfnod allweddol 4

72. Yn yr arholiadau TGAU, bu gwelliant ym mherfformiad yr ysgol mewn tri o'r pedwar dangosydd allweddol dros y tair blynedd diwethaf, gan roi'r ysgol yn y chwartel uchaf o ysgolion tebyg mewn dau ddangosydd ac uwchlaw'r canolrif mewn dangosydd arall yn 2006.

73. Yn 2004, o'i chymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim, roedd yr ysgol yn y chwartel isaf o ran canran y disgyblion sy'n ennill 5 neu fwy o raddau TGAU A* - C, ac islaw'r canolrif ar gyfer y canran sy'n ennill 5 A* – G a'r sgôr cyfartalog.

74. Yn 2005, roedd yr ysgol uwchben y canolrif ar gyfer dau o'r dangosyddion hyn ac yn y chwartel uchaf ar gyfer sgôr cyfartalog y disgyblion.

75. Yn 2006, roedd perfformiad y disgyblion yn gosod yr ysgol yn y chwartel uchaf ar gyfer y canrannau sy'n ennill 5 TGAU A* - C a 5 A* - G ac uwchlaw'r canolrif ar gyfer y sgôr cyfartalog.

76. Fodd bynnag, roedd canran y disgyblion sy'n ennill y DPC yn gosod yr ysgol yn y chwartel isaf o ysgolion tebyg yn 2004 a 2006, ac uwchlaw'r canolrif yn 2005.

77. Roedd y DPC yn is na'r sir ym mhob un o'r tair blynedd olaf. Yn 2004 a 2006, roedd y DPC yn is na chyfartaledd ysgolion Cymru.

78. Yn 2006, roedd canran y disgyblion sy'n ennill 5 A* - C a 5 A* - G yn uwch na'r sir a Chymru, gyda'r sgôr cyfartalog yn uwch na Chymru ac yn debyg i'r sir.

79. Roedd canran y disgyblion sy'n ennill TGAU gradd 'C' neu well mewn mathemateg yn is na'r sir a Chymru ym mhob un o'r tair blynedd olaf. Roedd y canran sy'n ennill gradd 'C' mewn gwyddoniaeth yn is na chyfartaledd y sir yn y tair blynedd olaf ond yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2005.

80. Yn 2004 a 2005, roedd perfformiad y merched yn sylweddol well na'r bechgyn ym mhob un o'r prif ddangosyddion. Yn 2006, roedd y bwlch ym mherfformiad y ddau ryw yn llawer llai.

81. Mae ystadegau gwerth ychwanegol LICC am 2006 yn dangos bod yr ysgol yn y chwartel uchaf o ran ysgolion tebyg am ychwanegu gwerth i'r canran o ddisgyblion sy'n ennill 5 gradd A* - C a 5 gradd A* - G, a'r sgôr pwyntiau cyfartalog yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn y chwartel isaf o ysgolion tebyg ar gyfer y DPC.

Safonau yn y medrau allweddol

82. Mae safonau yn y medrau allweddol yn dda.

83. Mae safonau siarad yn dda yn y Gymraeg ac yn dda gyda nodweddion rhagorol yn y Saesneg. Ar eu gorau, gall y disgyblion siarad yn huawdl, gan ddisgrifio'n fanwl, mynegi barn, rhesymu ac ymateb yn sensitif ac aeddfed i syniadau cymhleth.

84. Mae safonau gwrando yn dda iawn. Mae disgyblion yn gwrando'n ofalus iawn ar eu hathrawon a'u cyfoedion ac o'r herwydd yn ymateb yn ddeallus.

85. Mae safonau darllen yn dda yn y Gymraeg ac yn dda gyda nodweddion rhagorol yn y Saesneg. Mae disgyblion yn darllen yn hyderus, gan gyfleu ystyr a theimlad, ac yn gallu canfod a defnyddio gwybodaeth berthnasol o ffynonellau tystiolaeth.

86. Mae safonau ysgrifennu yn dda yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r disgyblion yn ysgrifennu i gwrdd ag amrediad o ddibenion, gan wneud defnydd pwrpasol o eirfa dechnegol a phynciol.

87. Mae safonau rhifedd disgyblion yn dda. Ar draws llawer o bynciau'r cwricwlwm, mae disgyblion yn defnyddio rheolau rhif yn effeithiol, yn llunio a dehongli graffiau'n dda ac mae safonau cyfrifo yn y pen yn dda.

88. Mae safonau'r disgyblion mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dangos nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion. Mae disgyblion yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n effeithiol i gyfleu gwybodaeth ond parhau i ddatblygu mae safonau trin data a modelu.

89. Mae hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn dda. Ar eu gorau, maent yn gallu symud o'r naill iaith i'r llall yn rhwydd, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Cynnydd disgyblion wrth ddysgu

90. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu wrth iddynt sicrhau ac atgyfnerthu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau newydd yn eu gwersi. Mae'r cynnydd a wneir mewn nifer arwyddocaol o wersi yn ystod cyfnod allweddol 3 yn rhagorol.

91. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da iawn ac yn cyrraedd safonau priodol i'w gallu.

92. Nid yw disgyblion yn gwbl glir o'u cryfderau a'u gwendidau ym mhob pwnc ac o'r herwydd nid ydynt bob amser yn ymwybodol o'r hyn sy'n angenrheidiol i wella safon eu gwaith.

Safonau yn y medrau personol, cymdeithasol a dysgu

93. Mae agwedd y disgyblion tuag at ddysgu yn gadarnhaol ac aeddfed. Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn cyfrannu'n frwdfrydig i'r gwersi.

94. Mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol, mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r disgyblion yn naturiol gwrtais a chyfeillgar; mae'r ysgol yn gymdeithas wâr a disgybledig.

95. Mae canran presenoldeb y disgyblion dros y tri thymor diwethaf yn 90.3% ar gyfartaledd, sy'n is na tharged cyfredol LICC, sef 93%, ac yn is na'r targedau a osodwyd gan yr ysgol ei hunan a'r sir.

96. Mae presenoldeb disgyblion cyfnod allweddol 3 wedi cyrraedd targed LICC yn ystod y ddau dymor diwethaf ond nid yw dulliau'r ysgol o fonitro a hybu presenoldeb wedi dylanwadu'n ddigonol hyd yma ar bresenoldeb rhai disgyblion yng nghyfnod allweddol 4.

97. Mae'r disgyblion yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol ac i wersi yn ystod y dydd.

98. Mae medrau datrys problemau y disgyblion yn dda; maent yn cyd-drafod a rhannu tasgau wrth gyflawni gwaith ymarferol. Er mwyn datblygu eu doniau, mae'r disgyblion yn manteisio'n frwdfrydig ar y gweithgareddau allgyrsiol a gynigir.

99. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a moesol. Maent yn cydweithio'n hawddgar â'i gilydd ac yn arddangos parch at, a gofal a phryder am eraill. Maent yn datblygu i fod yn bobl ifanc cyfrifol sy'n arddangos gonestrwydd a thegwch.

100. Mae'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o faterion sy'n ymwneud â chyfle cyfartal ac maent yn sensitif i amrywiaeth credoau a thraddodiadau oddi mewn i gymdeithas.

101. Mae ymrwymiad cryf iawn gan y disgyblion i'w bro ac i'w cymuned ac mae eu cyfraniad i weithgareddau cymunedol yn rhagoriaeth. Mae'r disgyblion, yn ogystal, yn datblygu ymwybyddiaeth dda iawn o fyd gwaith. Mae hyn yn baratoad gwerthfawr ar gyfer cymryd rhan effeithiol yn y gweithle a'r gymuned i'r dyfodol.

Chweched Dosbarth

Ansawdd canlyniadau arholiadau allanol

102. Mae perfformiad y myfyrwyr yn yr arholiadau lefel 'A' wedi bod yn gyson dda dros y tair blynedd olaf.

103. Roedd sgôr pwyntiau cyfartalog myfyrwyr yr ysgol yn uwch na'r sir a Chymru yn 2004, 2005 a 2006.

104. Yn ogystal, roedd y canran o'r myfyrwyr a lwyddodd i ennill graddau A - C yn yr arholiad lefel 'A' yn sylweddol uwch na'r sir a Chymru ym mhob un o'r tair blynedd olaf.

Safonau yn y medrau allweddol

105. Mae safonau'r myfyrwyr yn y medrau allweddol yn dda.

106. Mae medrau llythrennedd y myfyrwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae safonau iaith lafar y myfyrwyr yn dda yn y Gymraeg ac yn dda gyda nodweddion rhagorol yn y Saesneg. Mae'r myfyrwyr yn gwrando'n astud a deallus ar eu hathrawon ac ar ei gilydd. Mae safonau darllen yn dda iawn a safonau ysgrifennu yn dda.

107. Mae safonau rhifedd y myfyrwyr yn dda. Mae'r myfyrwyr yn hyderus wrth drafod rhif ac yn cymhwyso'u medrau rhif yn dda i bynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm.

108. Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu y myfyrwyr yn dda ac maent yn defnyddio'u sgiliau i gyfoethogi a chodi safon eu gwaith.

109. Mae hyfedredd dwyieithog y myfyrwyr yn dda; gallant drawsieithu'n dda o un iaith i'r llall.

Cynnydd myfyrwyr wrth ddysgu

110. Mae'r cynnydd a wna myfyrwyr yn eu dysgu yn dda.

111. Mae'r myfyrwyr yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac agweddau cyfrifol tuag at eu gwaith.

112. Nid ydynt, bob amser, yn gwbl ymwybodol o'u cryfderau a'u gwendidau a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella a chodi safon eu gwaith.

113. Mae'r myfyrwyr yn gwneud cynnydd da yn y cyrsiau a ddilynant ac o'r herwydd, maent mewn sefyllfa gref i symud ymlaen i'r cyfnod dysgu nesaf, boed hynny mewn gwaith neu addysg uwch.

Safonau yn y medrau personol, cymdeithasol a dysgu

114. Mae safonau y myfyrwyr yn y medrau personol, cymdeithasol a dysgu yn dda.

115. Mae'r myfyrwyr yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau'n ddygn gyda'u gwaith.

116. Mae'r myfyrwyr yn oedolion ifanc aeddfed a hyderus sy'n perthnasu'n rhwydd a hawddgar â'i gilydd a chydag oedolion. Mae eu hymddygiad yn glod i'r ysgol ac maent bob amser yn ymateb yn gadarnhaol i ddisgwyliadau uchel eu hathrawon.

117. Mae presenoldeb myfyrwyr yn y cyfnodau cofrestru yn gyson is na 90%. Mae eu presenoldeb yn y gwersi, fodd bynnag, yn gyson uwch na'r canran hwn.

118. Mae'r myfyrwyr yn cydweithio'n dda iawn, yn cynorthwyo'i gilydd ac yn dangos gwerthfawrogiad sensitif o farn eraill. Maent yn fodlon derbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith, ac yn barod iawn i gyfrannu i weithgareddau er lles yr ysgol gyfan.

119. Yn gyffredinol, mae'r myfyrwyr wedi'u paratoi'n dda iawn ar gyfer eu rolau i'r dyfodol ac mae ganddynt werthoedd cadarnhaol sy'n ymwneud â chyfle cyfartal ac amrywiaeth o fewn yr ysgol, eu cymuned ac yn genedlaethol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

120. Yn ei hadroddiad hunan arfarnu rhoddodd yr ysgol radd 1 i'r cwestiwn allweddol hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn wahanol. Mae'r tîm yn dyfarnu gradd 2 i'r cwestiwn allweddol hwn oherwydd nad oes cynllunio bwriadus yn y gwersi i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio'u medrau dwyieithog a bod anwastadrwydd mewn arferion asesu.

Pa mor dda y mae addysgu yn bodloni anghenion dysgwyr a gofynion y cwricwlwm neu'r cwrs

121. Mae'r tabl canlynol yn dangos y graddau a ddyfarnwyd i ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arsylwyd trwy'r ysgol.

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Ysgol Gyfan (50 o wersi)	**22 %**	**58 %**	**20 %**	**0 %**	**0 %**

122. Mae canran y gwersi y rhoddwyd gradd 1 neu 2 iddynt, sef 80%, yn rhagori ar y darlun cenedlaethol a ddisgrifiwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2005-2006. Yn genedlaethol, mae ansawdd yr addysgu'n dda (gradd 1 a 2) mewn 69% o wersi ac mae 17% ohonynt yn radd 1.

Cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4

123. Mae'r tabl canlynol yn dangos y graddau a ddyfarnwyd i ansawdd yr addysgu a'r asesu ymhob gwers a arsylwyd yng nghyfnodau allweddol 3 a 4.

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Cyfnod allweddol 3	**24 %**	**48 %**	**28 %**	**0 %**	**0 %**
Cyfnod allweddol 4	**18 %**	**65 %**	**17 %**	**0 %**	**0 %**
Cyfnodau allweddol 3 a 4 (38 o wersi)	**21 %**	**57 %**	**22 %**	**0 %**	**0 %**

124. Mae nodweddion y gwersi lle mae'r addysgu yn rhagorol yn cynnwys:
- cynllunio a chyflwyno gofalus iawn i ysbrydoli a chymell disgyblion trwy gyfrwng amrywiaeth eang o weithgareddau;
- gwaith yn cael ei berthnasu'n dda iawn i ddiddordebau a phrofiadau'r disgyblion;
- cyfleoedd eang yn cael eu darparu i ddatblygu medrau meddwl a dysgu'r disgyblion;
- cyfleoedd priodol yn cael eu cynllunio i ddisgyblion weithio'n llwyddiannus fel unigolion, mewn parau ac mewn grwpiau, a
- defnydd effeithiol o gwestiynu treiddgar i ymestyn cynigion y disgyblion.

125. Ar draws yr holl wersi, mae llawer o nodweddion da, yn cynnwys :
- cynllunio effeithiol a pharatoi manwl ar gyfer gwersi;
- amcanion eglur i'r gwersi, yn cael eu rhannu, eu defnyddio, ac yn y mwyafrif helaeth o achosion yn cael eu hadolygu ar y diwedd;
- cyflwyniadau pwyllog sy'n adeiladu'n dda ar waith blaenorol;
- defnydd o ystod dda o weithgareddau ac adnoddau, gan gynnwys peth defnydd o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol, sy'n cadw diddordeb y disgyblion;
- cyflymder ac amseru priodol i'r gweithgareddau;
- defnydd da iawn o hiwmor;
- technegau cwestiynu da i gadarnhau gwybodaeth flaenorol ac i gynorthwyo'r dysgu, a
- gwybodaeth bynciol gadarn.

126. Mewn ychydig o wersi mae rhai o'r diffygion canlynol:
- diffyg amrywiaeth a her ddigonol yn y gweithgareddau;
- cwestiynu cyfyngedig, ac o ganlyniad ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i ddatblygu eu gwaith mewn dyfnder nac i feithrin eu medrau dysgu annibynnol;
- diffyg defnydd effeithiol, ar adegau, o waith grŵp, a
- diffyg cynllunio bwriadus i ddatblygu medrau dwyieithog y disgyblion.

127. Mae perthynas waith dda iawn rhwng y disgyblion a'r athrawon. Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda fel unigolion ac yn cynnig arweiniad, cefnogaeth a chanmoliaeth, gan feithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r ysgol yn creu hinsawdd ofalgar ac yn cynnig profiadau dysgu lle caiff pob disgybl barch fel unigolyn beth bynnag fo ei ryw, ei hil neu anabledd, ynghyd â chefnogaeth sensitif ac effeithiol.

128. Mae nifer dda o athrawon yn rhoi yn hael o'u hamser, yn ystod awr ginio ac ar ôl ysgol, i gynnig cynhaliaeth ychwanegol mewn sesiynau gwaith sy'n atgyfnerthu dysgu'r disgyblion.

129. Mae disgyblion ag ADY yn cael eu haddysgu'n dda a'u hintegreiddio'n llawn i weithgareddau dosbarth. Mae'r cymorthyddion dysgu yn cynnig cefnogaeth effeithiol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

130. Anwastad yw'r ddarpariaeth wahaniaethol ar gyfer disgyblion o wahanol alluoedd ar draws yr adrannau er bod enghreifftiau unigol da ar gyfer disgyblion is eu gallu. Er bod arferion da mewn rhai pynciau, nid oes digon o gynllunio bwriadus ar gyfer diwallu anghenion y disgyblion mwyaf medrus a thalentog.

131. Mae'r disgyblion yn gallu defnyddio'r ddwy iaith yn rhugl, ond nid oes cynllunio pwrpasol i ddarparu cyfleoedd priodol i'r disgyblion i ddatblygu a defnyddio'u medrau dwyieithog mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

Y Chweched Dosbarth

132. Mae'r tabl canlynol yn dangos y graddau a ddyfarnwyd i ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arsylwyd yn y chweched dosbarth.

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Chweched dosbarth (12 o wersi)	**25 %**	**67 %**	**8 %**	**0 %**	**0%**

133. Mae nodweddion y gwersi lle mae'r addysgu'n rhagorol yn cynnwys:
- disgwyliadau uchel iawn, lle caiff myfyrwyr eu hannog i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol;
- gwybodaeth bynciol gyfoes a thrylwyr iawn yr athrawon;
- cefnogaeth effeithiol iawn a pharatoad trylwyr ar gyfer arholiadau allanol;
- gwersi sy'n cynnig cyfleoedd da iawn i fyfyrwyr ddatblygu ystod o fedrau allweddol;
- perthynas waith hynod o adeiladol a pharchus, ac
- athrawon sy'n llwyddo i symbylu ac i gael y gorau allan o'r myfyrwyr.

134. Mae nodweddion yr addysgu da yn cynnwys :
- amcanion eglur a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu ar gychwyn gwers, eu defnyddio gyda'r myfyrwyr a'u hadolygu ar y diwedd;
- tasgau ymarferol wedi'u trefnu'n effeithiol;
- cyflymder ac amseru da i'r gweithgareddau;
- esboniadau eglur;
- perthynas waith cadarn, a
- chynhaliaeth effeithiol ac adeiladol i unigolion, gan ganmol ac annog cyfraniadau'r myfyrwyr.

135. Mae'r diffygion a welwyd mewn nifer fechan o wersi yn cynnwys:
- gwersi sy'n rhy athro ganolog, ac o ganlyniad mae'r myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth yn oddefol;
- tueddiad i athrawon fwydo atebion, cyn trafod ymateb y myfyrwyr, a
- diffyg holi treiddgar i annog myfyrwyr i feddwl ac i ymateb yn estynedig.

Pa mor drylwyr yw'r asesu a sut y'i defnyddir wrth gynllunio a gwella dysgu?

136. Mae cyfundrefn asesu'r ysgol yn dangos nodweddion da a dim diffygion pwysig.

137. Ers yr arolygiad blaenorol mae'r ysgol wedi sefydlu system asesu gyfrifiadurol. Ar hyn o bryd, amrywia'r defnydd ohoni ar draws y pynciau wrth osod targedau pynciol ac ymateb i dangyflawni.

138. Mae polisi asesu'r ysgol wedi ei ddiweddaru'n briodol i gynnwys atodiad sy'n cyfeirio at y defnydd o'r system gyfrifiadurol newydd.

139. Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 3, ynghyd â rheoliadau'r byrddau arholi yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Cydymffurfir â gofynion asesu disgyblion a myfyrwyr sydd ag ADY.

140. Anwastad yw'r arferion asesu ar draws ac oddi mewn i bynciau, yn enwedig wrth i'r athrawon gynnig adborth ysgrifenedig i'r disgyblion a'r myfyrwyr ac wrth iddynt ddefnyddio asesu ar gyfer hybu dysgu. Caiff gwaith y disgyblion a'r myfyrwyr ei farcio'n gyson, ond mewn nifer o achosion nid yw'r marcio yn cynnig adborth digon penodol i ddisgyblion a myfyrwyr ar sut i wella eu gwaith. Mae ansawdd yr adborth a gynigir mewn rhai adrannau unigol yn dda neu'n dda iawn. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r gwaith yn cael ei gywiro a gwelliannau a sylwadau yn cael eu cynnig sy'n arwain yr unigolyn i wneud cynnydd da.

141. Mae'r disgyblion a'r myfyrwyr yn deall proses a phwrpas asesu. Er bod enghreifftiau da o ddisgyblion a myfyrwyr yn asesu eu gwaith eu hunain, nid yw'r arfer dda hon wedi treiddio i bob adran yn yr ysgol.

142. Mae trefn a strwythurau clir wedi eu sefydlu i adrodd i rieni a gwarcheidwaid ar gynnydd y disgyblion a'r myfyrwyr. Darperir gwybodaeth am gynnydd y disgyblion a'r myfyrwyr ddwywaith y flwyddyn drwy adroddiad ysgrifenedig. Ceir un adroddiad llawn ac o leiaf un adroddiad interim yn ogystal â chyfle i drafod mewn noson rieni.

143. Mae'r adroddiadau wedi'u seilio ar y system gyfrifiadurol sy'n olrhain cynnydd cwricwlaidd a bugeiliol y disgyblion a'r myfyrwyr. Gwneir defnydd da o'r canllawiau ysgol-gyfan i greu adroddiadau personol a darllenadwy. Er hyn, anwastad yw ansawdd y sylwadau pynciol. Nid yw sylwadau'r athrawon bob amser yn rhoi targedau penodol i'r disgyblion a'r myfyrwyr er mwyn gwella eu gwaith.

144. Gall pob disgybl a myfyriwr gyfrannu i'r adroddiadau trwy gynnig sylwadau ar eu gwaith. Er nad oes gofod ar yr adroddiadau eu hunain i rieni a gwarcheidwaid ymateb, mae gwahoddiad iddynt drafod unrhyw agwedd o'r cynnwys, ar unrhyw adeg.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

145. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â hunan arfarniad yr ysgol.

Y graddau y mae profiadau dysgu'n bodloni anghenion a diddordebau dysgwyr

Mae'r cwricwlwm yn:

- bodloni anghenion dysgu disgyblion ac yn adlewyrchu'r nodau ar gyfer disgyblion oed ysgol statudol a nodir yn Neddfau Addysg 1996 a 2005;
- cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol;
- darparu cyfle cyfartal a mynediad i bob disgybl a myfyriwr;
- sicrhau cymwysterau addas; a
- darparu addysg bersonol a chymdeithasol, addysg sy'n gysylltiedig â gwaith ac addysg ac arweiniad gyrfaoedd, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

146. Mae nifer o nodweddion rhagorol yn y modd y mae'r ysgol yn diwallu anghenion dysgu a diddordebau'r dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

    - ehangder cwricwlwm cyfnod allweddol 3, sy'n cael ei gyfoethogi trwy ddarparu gwersi drama i bawb. Caiff disgyblion yn y cyfnod allweddol hwn hefyd wers technoleg gwybodaeth a chyfathrebu pob pythefnos;

- hyblygrwydd cwricwlwm cyfnod allweddol 4, sy'n caniatáu dewisiadau agored i bob disgybl ac sy'n darparu rhaglenni addas trwy'r TGAU, Lefel Mynediad a'r Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol i ddisgyblion o wahanol alluoedd a thueddfryd, ac
- ehangder y ddarpariaeth yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang iawn o gyrsiau lefel 'A', ynghyd â chyrsiau galwedigaethol, sydd yn boblogaidd iawn gyda'r myfyrwyr.

147. Neilltuir amser priodol i bob pwnc yn y cyfnodau allweddol, ac er bod gwrthdaro yn amserlenni rhai myfyrwyr yn y chweched dosbarth, maent yn ddigon aeddfed i gwblhau eu gwaith a gofyn am gyngor gan eu hathrawon.

148. Mae'r cysylltiadau rhagorol a sefydlwyd gydag ysgolion cynradd y dalgylch yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y cwricwlwm ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3. Mae gwersi i ddisgyblion B6 wedi'u hamserlennu pob pythefnos yn yr ysgol uwchradd ar gyfer Cymraeg, Saesneg, gwyddoniaeth, mathemateg, addysg gorfforol a Ffrangeg. Mae athrawon o'r ysgolion cynradd a'r uwchradd yn cyd-gynllunio, addysgu, monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth. Mae'r arfer hon yn nodwedd ragorol o'r cwricwlwm.

149. Mae llawer o nodweddion da iawn yn y modd y mae'r ysgol yn datblygu medrau sylfaenol y disgyblion. Rhoddir cefnogaeth effeithiol i'r disgyblion hynny sydd arnynt ei hangen drwy grwpiau cefnogi llythrennedd a rhifedd, 'Reading Recovery', tynnu grwpiau bach allan ynghyd â grŵp Llwyddiant Prosiect B9.

150. Mae'r ysgol wedi ennill Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol.

151. Mae gan y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau allweddol nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion. Mae'r nodweddion da yn cynnwys cyfle i rai disgyblion cyfnod allweddol 4:

- ennill cymhwyster cydnabyddedig CLAIT mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a

- dilyn rhaglen fodylol dysgwr ganolog ASDAN, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu Medrau Allweddol.

152. Er bod pob pwnc ar draws y cwricwlwm yn cyfrannu at ddatblygiad y medrau allweddol, nid oes proses gydlynus o gynllunio ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth a'i monitro. Mae hyn yn arbennig o wir am rifedd, technoleg gwybodaeth a'r sgiliau allweddol ehangach.

153. Nid oes cyfle i fyfyrwyr chweched dosbarth ennill achrediad mewn medrau allweddol.

154. Mae'r cwricwlwm yn cael ei gyfoethogi drwy gynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad personol y disgyblion a'r myfyrwyr ac yn nodwedd ragorol o ddarpariaeth yr ysgol. Mae'r rhaglen yn cynnwys:

- profiadau diwylliannol trwy amrywiaeth o gystadlaethau a pherfformiadau. Mae'r ysgol yn cefnogi eisteddfodau a gwyliau lleol a chenedlaethol ac mae'r rhain yn cyfrannu at ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion a myfyrwyr o nodweddion diwylliannol ac ieithyddol Cymru;

- amrediad eang o glybiau a thimau chwaraeon;

- darpariaeth helaeth o glybiau a gweithgareddau eraill i hybu disgyblion i ddysgu y tu allan i oriau arferol ysgol, ac

- ymweliadau lleol a thramor sy'n caniatáu i ddisgyblion a myfyrwyr ehangu eu gorwelion a meithrin dealltwriaeth o fywydau pobl eraill.

155. Mae nodweddion rhagorol yn y modd y mae'r ysgol yn hybu datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion a'r myfyrwyr. Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar sy'n meithrin gwerthoedd moesol a chymdeithasol yn naturiol. Cynllunnir rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol [ABCh] gynhwysfawr i hyrwyddo a sicrhau bod disgyblion a myfyrwyr yn:

- dangos parch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr â'r ysgol;

- gallu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir;
- cymryd cyfrifoldeb ac arddangos hunanddisgyblaeth, ac
- arddangos gofal a chonsyrn am eraill yn yr ysgol, yn y gymuned leol ac ymhellach i ffwrdd. Mae'r ysgol yn trefnu nifer o weithgareddau codi arian ar gyfer elusennau.

156. Mae cynllunio ar gyfer datblygiad ysbrydol yn llai amlwg ar draws y cwricwlwm. Er bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer addoli ar y cyd, nid yw gwasanaethau ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion a myfyrwyr yn ddigonol.

157. Mae partneriaethau'r ysgol gyda rhieni, ysgolion a sefydliadau eraill yn atgyfnerthu profiadau dysgu'r disgyblion a'r myfyrwyr yn sylweddol ac yn cynnwys y nodweddion rhagorol a ganlyn:

- cysylltiadau pontio cwricwlaidd a bugeiliol cadarn iawn gyda'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo;
- cysylltiadau niferus a buddiol iawn gyda'r gymuned leol a chyflogwyr, a
- chysylltiadau effeithiol iawn gydag ysgolion, colegau a sefydliadau eraill, sy'n ehangu'n sylweddol y cyfleoedd dysgu a gynigir i'r disgyblion.

Y graddau y mae profiadau dysgu yn ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach

158. Mae nifer o nodweddion da yn y modd y mae cwricwlwm yr ysgol yn ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach.

159. Mae'r nodweddion da yn cynnwys:
- cysylltiadau pwrpasol gyda diwydiant a chyflogwyr, er mwyn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o fyd gwaith;
- cyfnodau profiad gwaith B10 a B12, sy'n cael eu trefnu a'u monitro'n ofalus;
- cyrsiau galwedigaethol, sy'n cael eu cyfoethogi gan gydweithio agos iawn gyda busnesau lleol i gynnig profiadau perthnasol ac ymarferol, ac
- ymweliadau cyson â'r ysgol gan siaradwyr o fyd busnes.

160. Mae'r Cwricwlwm Cymreig wedi'i ymgorffori'n effeithiol yng nghynlluniau gwaith pob pwnc. Mae gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol yn cefnogi datblygiad dealltwriaeth a gwerthfawrogiad disgyblion a myfyrwyr o Gymreictod.

161. Mae'r ysgol yn cymryd camau positif i sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac i atal unrhyw stereoteipio. Mae mynediad cyfartal i'r holl ddisgyblion i bob agwedd o'r cwricwlwm, ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r ysgol yn llwyddo'n dda iawn i integreiddio'r nifer sylweddol o ddisgyblion (12) y gofelir amdanynt gan awdurdodau lleol.

162. Parhau i ddatblygu mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae themâu ac unedau ar draws nifer o bynciau yn cyfrannu i hybu dealltwriaeth disgyblion o'r materion hyn, ond nid oes strategaeth ysgol gyfan, hyd yma, i hyrwyddo'r datblygiadau yma. Serch hynny, mae'r ysgol yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy trwy ailgylchu papur a mabwysiadu mesurau i arbed ynni.

163. Mae'r ysgol yn ystyried anghenion cyflogwyr lleol yn dda. Mae rhai o'r cyrsiau galwedigaethol a gynigir yn adlewyrchu ymateb positif yr ysgol i'r galw gan fusnesau lleol.

164. Mae'r profiadau a gynigir i ddisgyblion a myfyrwyr i ddatblygu eu medrau menter yn dda. Trefnir cyfleoedd i ddisgyblion a myfyrwyr gynllunio a rhedeg busnesau bychain, sy'n rhoi profiadau gwerthfawr iddynt o fentergarwch.

165. Ar y cyfan, mae'r ysgol wedi cynllunio cwricwlwm sy'n rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n darparu ystod eang o brofiadau; mae rhai ohonynt yn rhagorol ac yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer dysgu gydol oes.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

166. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â hunan arfarniad yr ysgol.

Ansawdd y gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr.

167. Mae ansawdd y cymorth a'r cyfarwyddyd a roddir i'r disgyblion yn dda gyda nodweddion rhagorol.

168. Mae'r nodweddion rhagorol yn cynnwys:

- sefydlu ethos cymunedol clos a gofalgar, lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus; mae'r berthynas rhyngddynt a'i gilydd a chyda'r athrawon yn dda iawn;
- cynllunio a rheoli trefniadau gofal a chefnogi effeithiol iawn. Mae'r polisïau cynhwysfawr a pherthnasol a baratowyd yn weithredol ac yn cynnig canllawiau clir. Mae safon y gofal er lles y disgyblion yn ardderchog;
- cysylltiadau a chydweithio agos iawn gydag asiantaethau allanol, sy'n cynnwys adrannau iechyd, lles ac addysg y sir, yn ogystal â'r heddlu ;
- cyswllt agos ac adeiladol gyda rhieni a gofalwyr drwy nosweithiau rhieni ac adroddiadau ar waith y disgyblion. Mae defnydd effeithiol o Lyfr Cyswllt y disgyblion yn arwain at gyfathrebu pellach rhwng rhieni ac athrawon dosbarth. Mae'r UDRh yn monitro'r cyswllt hwn bob hanner tymor. Rhennir gwybodaeth hefyd drwy brosbectws cynhwysfawr yr ysgol a chylchlythyron rheolaidd;
- tîm bugeiliol effeithiol iawn sy'n cynnwys penaethiaid dysgu cyfnodau allweddol a thiwtoriaid dosbarth sy'n adnabod eu disgyblion yn dda iawn. Maent yn mentora a monitro eu cynnydd academaidd yn ogystal â chynnig gofal a chynhaliaeth fugeiliol ardderchog;
- gwybodaeth a chefnogaeth dda iawn i ddisgyblion am yr holl gyfleoedd sydd ar gael iddynt a chyfarwyddyd diduedd wrth iddynt ddewis eu pynciau a'u cyrsiau.

169. Mae cyswllt bugeiliol ardderchog yn bodoli gyda'r ysgolion cynradd, sy'n sicrhau trosglwyddiad hwylus ac esmwyth i ddisgyblion i'r ysgol uwchradd. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer pontio yn rhagoriaeth. Rhoddir rhagflas o fywyd yr ysgol i'r disgyblion drwy gynnig cyfle iddynt fynychu'r ysgol uwchradd am ddiwrnod bob pythefnos yn ystod Blwyddyn 6. Mae'r profiadau a gynigir iddynt o fudd mawr yn fugeiliol a chwricwlaidd ac yn sicrhau dilyniant priodol o'r ysgolion cynradd i'r uwchradd. Darperir amrywiaeth o wersi a gweithgareddau allgyrsiol dan arweiniad athrawon yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd. Ychwanegir at y ddarpariaeth hon drwy gynnig cynhaliaeth ieithyddol bellach i ddisgyblion sy'n mynychu'r Ganolfan Iaith a leolir yn yr ysgol. Mae hyn hefyd o gymorth iddynt drosglwyddo'n llwyddiannus i fywyd a gwaith yr ysgol uwchradd. Mae disgyblion Blwyddyn 5 yr ysgolion cynradd hefyd yn cael cyfle i fynychu'r ysgol yn ystod tymor yr Haf.

170. Mae nodweddion da y ddarpariaeth yn cynnwys:

- rhaglen briodol o wersi ABCh a gyflwynir yn rheolaidd i bob dosbarth gan eu tiwtoriaid dosbarth ac sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol. Cyfoethogir y gwersi hyn ymhellach drwy gyfraniadau gan ddarparwyr allanol, megis yr ymwelydd iechyd a'r heddlu, fydd yn trafod materion cyfoes a pherthnasol;

- system 'buddies' effeithiol sy'n golygu cymorth i ddisgyblion iau yr ysgol gan rai o'r disgyblion hŷn;

- Cyngor yr Ysgol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl ddosbarthiadau ac sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion perthnasol dan arweiniad prif swyddogion yr ysgol;

- gweithdrefnau effeithiol i fonitro presenoldeb a phrydlondeb y disgyblion, gan wneud defnydd priodol o Swyddog Lles yr Awdurdod Addysg. Mae trefn gyfrifiadurol o dracio a dadansoddi presenoldeb, ynghyd â gwaith bugeiliol y penaethiaid cynnydd, yn dechrau dylanwadu er gwell ar bresenoldeb rhai disgyblion;

- cydweithio clos ac effeithiol rhwng yr ysgol â Gyrfa Cymru. Mae'r ysgol yn cynnig addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd cynhwysfawr ac mae'r trefniadau hyn yn llwyddo i helpu'r disgyblion i wneud dewisiadau deallus;

- gweithdrefnau clir i sicrhau iechyd a lles y disgyblion a'r myfyrwyr, sy'n cynnwys annogaeth i'r disgyblion i fabwysiadu arferion iach, sy'n cwmpasu gweithgarwch corfforol a ffitrwydd, bwyta'n iach ac yfed, a

- threfniadau effeithiol ar gyfer amddiffyn plant; mae gan yr ysgol bolisi Amddiffyn Plant sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol. Mae pob aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant priodol ac yn ymwybodol o'r camau i'w dilyn, pe bai angen.

Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol [ADY]

171. Mae gan ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY nodweddion da gyda rhai'n rhagorol.

172. Mae'r ysgol yn gweithredu polisi clir a chynhwysfawr ar gyfer AAA sydd yn cwrdd â'r gofynion statudol yn y Côd Ymarfer ar gyfer Cymru. Mae'r cydgysylltydd anghenion addysgol arbennig (CGAAA) yn paratoi adroddiad manwl ar y polisi yn flynyddol i'r Corff Llywodraethol.

173. Mae 12 disgybl ar ddatganiad ac oddeutu traean o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr AAA, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

174. Cyniga'r CGAAA arweiniad cadarn ac effeithiol iawn i'r ysgol. Mae'n darparu cefnogaeth a hyfforddiant da iawn i'r holl staff, gan gydweithio'n drawsbynciol er mwyn hyrwyddo strategaethau addysgu effeithiol a sicrhau y cefnogir y disgyblion hynny sydd angen cefnogaeth ychwanegol gan gynorthwywyr dysgu. Cydweithia'n effeithiol gyda'r rhieni, y gwasanaethau cefnogi, y seicolegydd addysg ac asiantaethau allanol eraill i sicrhau cefnogaeth briodol i'r disgyblion. Mae'r CGAAA yn arwain tîm o athrawon cefnogi a chynorthwywyr dysgu effeithiol sydd wedi'u hyfforddi a'u cymhwyso'n dda iawn i gwrdd ag anghenion eu dyletswyddau.

175. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd rhagorol o brofion safonol a masnachol i ddynodi disgyblion a all fod yn tangyflawni, ac er mwyn cynllunio a darparu cefnogaeth briodol iddynt. Mae'r monitro ac adolygu rheolaidd a thrylwyr o gynnydd disgyblion gydag AAA yn nodwedd ragorol, gan ei fod yn sicrhau cynllunio effeithiol a chefnogaeth sydd wedi'i dargedu'n briodol a chost-effeithiol.

176. Gwna'r disgyblion gynnydd da iawn yn CA3 a CA4, gyda nifer da ohonynt yn mynd ymlaen i ennill cymwysterau ôl-16 yn yr ysgol ac mewn colegau addysg bellach ac uwch.

177. Addysgir y mwyafrif helaeth o ddisgyblion ag AAA yn briodol o fewn y ddarpariaeth brif ffrwd. Pan fo angen, trefnir cefnogaeth ychwanegol drwy neilltuo unigolion neu grwpiau bychan, neu trwy gefnogaeth o fewn y dosbarth i gwrdd ag anghenion penodol disgyblion unigol.

178. Mae un disgybl wedi ei ddatgymhwyso o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, ac mae'r ysgol yn gwneud trefniadau addas ar gyfer y disgybl hwn.

179. Mae'r trefniadau blynyddol ar gyfer adolygu datganiadau, cynlluniau addysg unigol disgyblion ar Gymorth Ysgol a Chymorth Ysgol a mwy, y portffolios cynnydd a ddarperir a'r dystiolaeth monitro cynnydd disgyblion, yn dda.

180. Yn ogystal â'r nodweddion rhagorol a nodir uchod, mae gan ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol ychwanegol lawer o nodweddion da, sy'n cynnwys:

- gwybodaeth briodol yn cael ei ddarparu i athrawon prif ffrwd er mwyn cynorthwyo eu cynllunio;
- arlwy eang o sesiynau grymuso sgiliau llythrennedd a rhifedd a gynhelir gan athrawon a chynorthwywyr dysgu â chanddynt adnoddau da;
- rhaglenni gwaith unigol a grŵp wedi'u strwythuro'n fanwl i sicrhau cynnydd da mewn darllen, sillafu a rhifedd;
- darpariaeth darllen pâr i ddisgyblion CA3 gyda myfyrwyr y chweched dosbarth;
- monitro ac adolygu rheolaidd a thrylwyr o gynnydd disgyblion AAA i sicrhau cynhwysiad a mynediad y disgyblion at y cwricwlwm, a'r
- defnydd hyblyg o'r cwricwlwm i gwrdd ag anghenion disgyblion unigol, gan gynnwys cymorth i ddisgyblion ag anghenion penodol gyda sgiliau adolygu yn CA4 yn ogystal â chymorth iddynt ennill cymwysterau ychwanegol ASDAN.

181. Mae gan gorff llywodraethol yr ysgol aelod dynodedig sydd â chyfrifoldeb am faterion AAA. Mae'n cwrdd yn rheolaidd gyda'r staff AAA er mwyn trafod yr agwedd yma o'r ddarpariaeth.

182. Mae gan yr ysgol drefniadau da i gefnogi disgyblion sydd ag anawsterau ymddygiad, gan gynnwys sesiynau rheoli tymer a chymorth un i un pan fo'n briodol.

183. Gwaharddwyd tri disgybl yn barhaol yn ystod y flwyddyn cyn yr arolygiad, a dilynodd yr ysgol y camau priodol yn yr achosion hynny. Trefnir gwaith priodol i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd am gyfnodau penodol, a chynhelir cyfarfodydd ailgymhathu sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer gweithredu Rhaglen Cymorth Bugeiliol i gynorthwyo a chynnal y disgyblion hyn. Mae perthynas weithiol dda yn bodoli gydag ystod eang o asiantaethau allanol, gan gynnwys DEWIS, Gyrfa Cymru a'r gwasanaeth nyrs ysgol.

184. Mae gan yr ysgol 12 disgybl sydd mewn gofal, gyda 10 ohonynt o AU eraill. Mae'r cysylltiadau â'r AU hyn yn cael eu cydgordio'n ofalus ac effeithiol gan y dirprwy bennaeth.

Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal

185. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal yn dda.

186. Cynigir cyfle cyfartal i bawb ym mhob gweithgaredd, gyda chyfle i bob disgybl gymryd rhan ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

187. Mae trefniadau a pholisïau priodol yn eu lle i hyrwyddo cydraddoldeb rhyw ac i herio stereoteipio. Manteisia'r ysgol yn llawn ar bob cyfle i hyrwyddo'r egwyddorion hyn yn newisiadau'r disgyblion ac yn ei gweithgareddau allgyrsiol.

188. Mae gan yr ysgol bolisi priodol ar gyfer hybu cydraddoldeb hiliol ac mae dealltwriaeth disgyblion a myfyrwyr o amrywiaeth cymdeithasol yn cael ei ddatblygu trwy'r rhaglen ABCh ac mewn pynciau perthnasol eraill.

189. Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau effeithiol iawn i ddelio ag ymddygiad gormesol, gan gynnwys bwlio. Mae'r ysgol wedi sefydlu ethos lle nad oes lle i wahaniaethu nac aflonyddu. Mae ymddygiad rhagorol y disgyblion yn dystiolaeth o ffrwyth y trefniadau hyn.

190. Mae'r ysgol wedi cymryd camau cadarnhaol i sicrhau nad yw disgyblion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol. Mae'r ysgol yn ymateb yn sensitif a chynhaliol i anghenion disgyblion sydd ag anableddau. Mae asesiad o addasrwydd yr adeilad i bobl anabl wedi ei gynnal a Chynllun Hygyrchedd a Chynllun Cydraddoldeb i'r Anabl wedi'u llunio.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

191. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd a ddyfarnwyd yn hunan arfarniad yr ysgol.

Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn darparu cyfarwyddyd clir ac yn hyrwyddo safonau uchel

192. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n rhoi cyfeiriad eglur a phendant i waith yr ysgol. Mae'n arwain mewn dull agored ac yn ennyn parch y llywodraethwyr, rhieni, staff a disgyblion.

193. Mae'r UDRh yn rhannu gweledigaeth y pennaeth ac yn cydweithio'n dda iawn i wireddu'r amcanion a'r targedau cytunedig. Mae eu cryfderau unigol yn cydweddu â'i gilydd yn dda iawn.

194. Mae arweinyddiaeth y pennaeth a'r UDRh wedi arwain at sefydlu cymuned wâr sydd â gwerthoedd cadarn. Rhoddir bri ar safonau uchel, darparu ystod eang o brofiadau i'r disgyblion a'r myfyrwyr a hynny mewn hinsawdd gartrefol a gofalgar. Mae adnabyddiaeth rheolwyr a staff o'r disgyblion a'r myfyrwyr a'u gofynion yn ardderchog.

195. Mae cynllun datblygu ysgol (CDY) priodol wedi ei lunio i gwrdd â gofynion yr ysgol ac i ymateb i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae mwyafrif helaeth y cynlluniau datblygu adrannol yn cefnogi ac yn hyrwyddo blaenoriaethau'r CDY.

196. Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau eglur sy'n seiliedig ar anghenion y disgyblion a'r myfyrwyr.

197. Mae'r rheolwyr wedi sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael cyfle cyfartal ac y mae gan bob grŵp yn yr ysgol fynediad cyfartal i bob cwrs a gweithgaredd. Nid oes yr un disgybl o dan anfantais ar sail cefndir ieithyddol neu ddiwylliannol.

198. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda iawn i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Gwneir defnydd o ddulliau dysgu o bell i gyfoethogi'r ddarpariaeth gwricwlaidd i fyfyrwyr B 12 a B 13. Mae cysylltiadau ardderchog gydag ysgolion cynradd y dalgylch.

199. Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau cryf a niferus gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys ysgolion, colegau addysg bellach, colegau addysg uwch a chyflogwyr lleol.

200. Yn dilyn trafodaeth gyda'r pennaeth, gosodir targedau meintiol heriol i adrannau ond ni roddir sylw digonol i berfformiad blaenorol y disgyblion. Mae'r targedau yn cael eu trafod a'u diweddaru yn gyson ac mae'r broses o adnabod disgyblion a myfyrwyr sy'n tangyflawni yn effeithiol.

201. Yn gyffredinol, mae rheolwyr canol yn gweithredu'n effeithiol. Fodd bynnag, nid yw safon arweinyddiaeth rheolwyr canol yn gyson dda. Nid yw prosesau hunan arfarnu trwyadl a chynllunio strategol manwl ar lefel adrannol yn gyson ym mhob pwnc.

202. Mae gweithdrefnau effeithiol yn bodoli i adnabod anghenion datblygu staff.

203. Mae darpariaeth Rheoli Perfformiad y staff cyfan yn cychwyn gyda chyfweliad gyda'r pennaeth a chyfle i'r athrawon hunan arfarnu eu gwaith. Fel dilyniant i'r ddarpariaeth hon ac i'r cynlluniau datblygu adrannol, mae'r ysgol yn adnabod anghenion datblygu'r athrawon ac yn trefnu hyfforddiant a dilyniant addas. Yn dilyn cyrsiau, mae staff yn aml yn rhannu gwybodaeth ac arferion da gyda'i gilydd.

204. Mae un aelod o'r staff wedi cwblhau'r cwrs sy'n arwain at y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Penaethiaid.

205. Trwy ail-strwythuro'r gweithlu ategol a gweinyddol, llwyddodd yr ysgol i gwrdd â gofynion y cytundeb baich gwaith cenedlaethol i athrawon, gan lwyddo i gynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol i'r staff yn ogystal.

Pa mor dda y mae llywodraethwyr neu gyrff goruchwylio eraill yn cyflawni eu cyfrifoldebau

206. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol a brwdfrydig ac yn cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol. Mae gan yr aelodau brofiad helaeth ym myd addysg a thu hwnt a defnyddir eu harbenigedd i gyfrannu at a chyfoethogi gwaith yr ysgol.

207. Mae'r corff llywodraethol yn cydweithio'n dda gyda'r UDRh i osod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae'n weithredol yn y broses o ffurfio a thrafod polisïau ac mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda o ansawdd yr addysg yn yr ysgol. Mae ymwybyddiaeth aelodau'r corff o waith rhai adrannau yn dda iawn ond nid yw hyn yr un mor wir ym mhob pwnc.

208. Mae'r llywodraethwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn cyfarfod â gofynion cyrsiol a gofynion statudol eraill ond nid yw wedi sicrhau bod yr ysgol yn dilyn canllawiau'r Comisiwn Archwilio wrth fabwysiadu cyllideb gyfredol yr ysgol.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

209. Yn ei hadroddiad hunan arfarnu rhoddodd yr ysgol radd 1 i'r cwestiwn allweddol hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn wahanol. Mae'r tîm yn barnu bod anghysondeb yn safon y prosesau hunan arfarnu adrannol ac nad yw'r cyfundrefnau monitro yn canolbwyntio'n ddigonol ar arfarnu safonau cyflawniad disgyblion.

Pa mor effeithiol y caiff perfformiad yr ysgol ei fonitro a'i arfarnu

210. Mae ethos hunan arfarnu cryf a sefydlwyd wedi galluogi'r ysgol i ddynodi a rhannu arfer dda ac i adnabod materion sydd angen eu datblygu.

211. Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn amlygu cryfderau'r ysgol yn gywir a gonest, ynghyd â'r meysydd ar gyfer datblygu at y dyfodol. Mae hefyd yn defnyddio meini prawf saith cwestiwn allweddol y Fframwaith Arolygu Cyffredin yn effeithiol, gan restru ffynonellau tystiolaeth perthnasol i gefnogi barn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu'n cefnogi nifer dda o farnau'r ysgol. Mae'r graddau a ddyfarnwyd gan y tîm arolygu yn cyfateb i rai'r ysgol mewn pedwar o'r saith cwestiwn allweddol, ond yn is ar gyfer tri o'r cwestiynau, sef cwestiynau allweddol 2, 6 a 7.

212. Mae polisi a chanllawiau hunan arfarnu'r ysgol yn darparu arweiniad clir i staff ac i adrannau ar sut i weithredu.

213. Mae gan yr ysgol strwythurau a threfniadau monitro cadarn. Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn defnyddio dulliau amrywiol i gasglu tystiolaeth sy'n cynnwys dadansoddi data, archwilio gwaith disgyblion ac arsylwi gwersi. Mae'r camau hyn wedi arwain at ddatblygu agwedd adlewyrchol a deialog proffesiynol rhwng staff, sydd wedi arwain at welliannau mewn nifer o feysydd.

214. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu am safonau yr addysgu yn yr ysgol yn cydfynd â chanlyniadau arfarniadau'r ysgol, yn dilyn arsylliadau o wersi gan yr UDRh.

215. Gwna'r ysgol ddefnydd cynyddol o system gyfrifiadurol i gadw golwg ar gynnydd disgyblion ac i adnabod ac ymateb i dangyflawni. Fodd bynnag, nid yw'r cyfundrefnau monitro yn canolbwyntio'n ddigonol ar arfarnu safonau cyflawniad disgyblion.

216. Mae anghysondeb yn ansawdd a manylder yr hunan arfarniadau adrannol. Yn yr arferion gorau, mae dadansoddi data manwl, edrych ar waith disgyblion ac arsyllu gwersi, yn arwain at adnabod agweddau penodol sydd angen eu gwella. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae'r adroddiadau hunan arfarnu yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn ddadansoddol eu natur.

217. Mae'r trefniadau ar gyfer ceisio barn disgyblion, staff ac eraill sydd â diddordeb yn datblygu'n dda. Gwna'r ysgol ddefnydd cynyddol o holiaduron i gasglu barn disgyblion, staff a rhieni am agweddau ar waith yr ysgol. Ymdrecha'r ysgol i sicrhau bod y wybodaeth sydd yn cael ei chasglu trwy holiaduron mor ddilys a dibynadwy ag sydd bosib ac mae'n gweithredu'n fuan ar sail y canfyddiadau. Mae sylwadau a barnau disgyblion sy'n cael eu cyflwyno trwy'r cyngor ysgol, yn cael ystyriaeth deg. Er nad oes trefn ymgynghori ffurfiol, caiff barn cynrychiolwyr o'r gymuned leol a chyflogwyr ystyriaeth lawn wrth gynllunio datblygiad yr ysgol.

Effeithiolrwydd cynllunio ar gyfer gwelliant

218. Mae prosesau cynllunio'r ysgol ar gyfer gwelliant yn dda ac yn rhoi sylw teg i'r wybodaeth sy'n deillio o brosesau hunan arfarnu'r ysgol. Gwna'r UDRh ddefnydd da o'r wybodaeth hon i bennu blaenoriaethau gwella sydd yna yn cael eu trafod yn fanwl mewn cyfarfodydd staff a llywodraethwyr.

219. Mae'r CDY yn arenwi strategaethau gweithredu manwl ac yn gosod targedau clir a heriol. Mae'r CDY, a'r cynlluniau datblygu adrannol, yn weithredol dros gyfnod o dair blynedd. Fodd bynnag, nid yw'r arfarniadau blynyddol o weithrediad y cynlluniau datblygu yn dylanwadu'n ddigonol ar y cynlluniau hir dymor.

220. Nid oes cyswllt amlwg rhwng canfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu adrannol a'r cynlluniau datblygu adrannol.

221. Mae'r ysgol yn sicrhau bod adnoddau digonol ar gyfer gweithredu'r prif flaenoriaethau a nodir yn y CDY.

222. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth ddelio â materion allweddol yr arolygiad blaenorol. Cymerwyd camau pendant i adnabod y disgyblion sy'n tangyflawni a gweithredwyd ystod dda iawn o strategaethau sydd wedi cael effaith cadarnhaol ar eu perfformiad academaidd. Mae'r ysgol wedi ac yn parhau i ddatblygu ei gweithdrefnau asesu er sicrhau cysondeb o fewn ac ar draws yr adrannau. Ymatebodd yr ysgol yn llawn i'r holl faterion iechyd a diogelwch y tynnwyd sylw atynt yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae'r ysgol yn awr yn darparu amser digonol i addysg grefyddol statudol yn CA4 ac yn y chweched dosbarth.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion

223. Mae'r radd hon yn is na'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Barnodd y tîm arolygu nad yw'r ysgol wedi ystyried argymhellion y Comisiwn Archwilio'n ddigonol wrth bennu cyllideb gyfredol yr ysgol.

Digonolrwydd, addasrwydd a'r defnydd a wneir o staffio, adnoddau dysgu ac adeiladau ac ystafelloedd

224. Mae'r ysgol wedi'i staffio'n dda, a chanddi nifer digonol o athrawon i gyflwyno'r cwricwlwm cytunedig. Mae cydbwysedd da rhwng athrawon profiadol ac athrawon ieuengach. Medda'r mwyafrif mawr o athrawon ar radd anrhydedd perthnasol, gyda thraean o'r athrawon wedi ennill cymhwyster uwch neu broffesiynol pellach. Er bod tua thraean o'r athrawon yn addysgu mwy nag un pwnc, nid yw hyn yn effeithio'n andwyol ar safonau cyflawniad y disgyblion, gan fod cefnogaeth a hyfforddiant addas yn cael ei ddarparu ar gyfer addysgu ail neu drydydd pwnc. Mae'r gefnogaeth i'r Athrawon Newydd Gymhwyso yn briodol. Gwerthfawrogant y gefnogaeth a gânt gan reolwyr a'r cyfleoedd a ddaw i'w rhan i fynychu cyrsiau a hyfforddiant addas.

225. Mae'r technegwyr a'r staff gweinyddol yn ymgymryd â'u tasgau yn hyfedrus ac effeithiol. Mae nifer digonol o gynorthwywyr dysgu sydd wedi'u cymhwyso i lefel briodol o arbenigeddau mewn AAA ac, ar y cyfan, gwneir defnydd da o'r staff cefnogi ac ategol. Mae'r gofalwr, y gogyddes, a'r trefniadau ar gyfer cynnal a chadw'r tiroedd sydd o dan reolaeth gyllidol yr ysgol, yn cyfrannu'n effeithiol at ddelwedd drwsiadus a diogelwch yr ysgol, yn ogystal â safon dda'r arlwyaeth.

226. Mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau amser priodol i athrawon ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn gweithio'n dda. Mae'r modd hyblyg y mae athrawon yn gweithredu'r gyfundrefn yn gymorth i'r ysgol weithredu'n esmwyth. Gweithredwyd cynllun addas ar gyfer ailfodelu'r gweithlu a darparwyd swydd-ddisgrifiadau manwl a pherthnasol.

227. Mae digon o lyfrau ac adnoddau dysgu eraill yn y mwyafrif helaeth o bynciau. Mae ansawdd llawer o'r adnoddau yn dda. Manteisia'r adrannau ar gyfraniad blynyddol y Gymdeithas Rhieni i ehangu'r ystod o adnoddau a chyfarpar trwy wneud ceisiadau i'r Gymdeithas. Mae'r ysgol wedi buddsoddi, ac yn parhau i fuddsoddi, mewn offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r gymhareb cyfrifiadur : disgybl yn dda, ac wedi gwella ers yr arolygiad blaenorol. Er hyn, erys cyfrifiaduron hŷn mewn rhai adrannau. Nifer cymharol isel (6) o fyrddau gwyn rhyngweithiol a thaflunyddion sydd yn yr ysgol ac mae hyn yn cyfyngu ar y profiadau addysgu a dysgu mewn rhai pynciau.

228. Mae’r arddangosfeydd pynciol yn yr ystafelloedd dosbarth a’r coridorau o ansawdd da ac yn aml yn dda iawn. Mae’r toiledau a’r ystafelloedd newid mewn cyflwr da ar y cyfan.

229. Yn gyffredinol, mae’r ystafelloedd o faint addas i’r grwpiau dysgu.

230. Mae’r llyfrgell, sydd hefyd yn adnodd cymunedol, ar gael i’r ysgol bob bore. Er ei bod yn gyfyng ei maint, mae’n cynnig awyrgylch gweithio ddymunol i’r disgyblion a myfyrwyr sy’n ei ddefnyddio. Nid yw’r llyfrgell yn cael ei defnyddio i’w llawn botensial i hyrwyddo datblygiad sgiliau ymchwilio’r disgyblion.

231. Mae’r adeiladau’n ddiogel ac yn addas ar gyfer nifer y staff a’r disgyblion ar y gofrestr. Mae mynediad i’r anabl yn dda, gyda chynllun hygyrchedd priodol wedi’i lunio ar gyfer gwelliannau pellach. Mae cyflwr adeiladau’r ysgol a’r campws yn gyffredinol dda. Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn frwdfrydig â'r materion a godwyd yn yr adroddiad blaenorol ynglŷn â'r adeiladau a’r cyfleusterau i ddisgyblion, ac yn parhau i weithredu rhaglen fanwl ac uchelgeisiol o welliannau i’r adeiladau. Mae’r gwelliannau sydd eisoes wedi’u cwblhau wedi codi safon amgylchfyd ac ethos yr ysgol yn sylweddol ers yr arolygiad diwethaf.

Pa mor effeithiol y rheolir adnoddau er mwyn sicrhau gwerth am arian

232. Mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion yn y modd y mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau er mwyn sicrhau gwerth am arian.

233. Mae’r ysgol yn sicrhau lefelau staffio digonol i addysgu’r cwricwlwm. Mae’r lefelau staffio, ynghyd â’r gymhareb cyswllt cymharol uchel, (84.9%), yn golygu bod maint grwpiau dysgu yn fychan ar draws yr ysgol, gyda maint dosbarthiadau ar gyfartaledd yn 14.8, o’i gymharu â 18.8 yn sirol a 20.7 yn genedlaethol. (ffigurau 2004-05).

234. Mae trefniadau priodol ar gyfer rhoi amser wedi ei warchod i athrawon ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

235. Mae gan yr ysgol adnoddau digonol i gefnogi’r dysgu ac addysgu yn y rhan fwyaf o bynciau. Gwneir defnydd addas hefyd o’r adeilad.

236. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o’r athrawon a’r staff cefnogol drwy ddefnyddio’u hamser a’u profiad yn dda.

237. Y pennaeth a’r bwrsar sy’n gyfrifol am gyllideb yr ysgol. Mae’r gyllideb ysgol yn cael ei monitro’n ofalus o ddydd i ddydd, gydag adroddiadau ariannol priodol yn cael eu darparu i’r llywodraethwyr o leiaf unwaith y tymor.

238. Mae’r corff llywodraethol wedi ymateb yn briodol i adroddiad awdit diweddar (Tachwedd 2005) yr AU.

239. Prif flaenoriaeth yr ysgol yw sicrhau lefelau staffio addas ar gyfer cyflwyno profiadau eang i'w disgyblion a'i myfyrwyr, a pharhau i wneud hynny mewn dosbarthiadau cymharol fychan. Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, penderfynodd y corff llywodraethu, wedi ymgynghori â'r AU, fabwysiadu cyllideb gyda diffyg cynlluniedig o £107,000. Bydd hynny, ynghyd â'r cynllun busnes cysylltiedig, yn diogelu'r ddarpariaeth gwricwlaidd bresennol hyd nes y gweithredir yn llawn fformiwla gyllido ddiwygiedig yr AU. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei ystyried yn arfer cyllidol da gan y Comisiwn Archwilio.

240. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i ganfod a diwallu anghenion datblygiad proffesiynol pob aelod o'r staff, gan gynnwys staff cefnogol.

241. O ystyried y sefyllfa yn ei chyfanrwydd, o safbwynt safonau cyrhaeddiad da a da iawn y disgyblion a'r myfyrwyr, ansawdd da'r addysgu, y ddarpariaeth gwricwlaidd ragorol ac ansawdd rhagorol y gefnogaeth a'r arweiniad i'r disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth am arian.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae'r Ysgol yn falch iawn o brif ganfyddiad yr adroddiad hwn sef "Mae Ysgol Uwchradd Tregaron yn ysgol dda gyda nifer o ragoriaethau....." Ymfalchiwn hefyd yn y ffaith ei bod yn llwyddo i ragori yn yr ystod eang iawn o brofiadau ffurfiol ac allgyrsiol y mae'n cynnig i'r disgyblion. Nodwn hefyd fod "ansawdd arbennig y gofal o fewn yr ysgol" yn rhagoriaeth.

Trwy'r adroddiad a'r broses arolygu canmolwyd agweddau cadarnhaol y disgyblion a myfyrwyr tuag at eu dysgu ac yn arbennig safonau rhagorol eu hymddygiad. Cydnabyddwyd y modd arbennig y maent yn cydweithio â'i gilydd, eu hymrwymiad i'w bro a'r modd y maent yn "cyfrannu'n rhagorol i weithgareddau cymunedol."

Mae Cynllun Datblygu'r Ysgol yn ddogfen sy'n gosod blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer datblygiad ac rydym yn falch o ganfyddiad yr arolygwyr bod ethos hunan arfarnu cryf yn yr ysgol.

Nodwn hefyd fod cynnydd wedi bod yng nghanlyniadau'r disgyblion a myfyrwyr ac eu bod yn cyflawni yn aml yn uwch na disgyblion a myfyrwyr mewn ysgolion tebyg. Rydym hefyd yn falch bod yr arolygwyr yn cydnabod bod yr ysgol yn cynnig cyfle cyfartal ymhob gweithgaredd a chyfle i bob disgybl gymryd rhan ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

Ymfalchiwn yn y ffaith bod y cyswllt bugeiliol 'ardderchog' yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgolion cynradd.

Mae safon da yr addysgu gyda 80% o wersi yn dda neu'n dda iawn yn destun balchder ac yn deyrnged i waith caled y staff. Darllenwn gyda balchder y sylwadau ynglŷn a nodweddion rhagorol yr addysgu a'r cwricwlwm yn ogystal a safon ardderchog y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mewn cymuned glos, gwâr a gofalgar lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus. Dywed hyn gyfrolau am ethos ac awyrgylch yr ysgol.

Wrth gloi'r adroddiad nodwyd y cynnydd da a wnaed ers yr arolwg diwethaf. Nodwyd hefyd bod 4 o'r 5 mater i'w datblygu a adnabyddwyd gan yr arolygwyr eisioes wedi eu nodi ar gynllun datblygu'r ysgol.

Carwn fel ysgol gydnabod proffesiynoldeb ac ymroddiad staff yr ysgol, arweiniad y Corff Llywodraethol a chefnogaeth y gymuned leol am eu cyfraniad amhrisiadwy tuag at lwyddiant ein disgyblion a myfyrwyr.

Diolchwn hefyd i'r Tîm Arolygaeth am eu proffesiynoldeb a hynawsedd yn ystod cyfnod yr arolwg.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Uwchradd Tregaron
Math o ysgol	Cyfun, cymunedol, naturiol ddwyieithog
Ystod oedran y disgyblion	11-18 oed
Cyfeiriad yr ysgol	Heol Llambed, Tregaron, Ceredigion
Cod post	SY25 6HG
Rhif ffôn	01974 298231

Pennaeth	Mr. Gwenallt Llwyd Ifan
Dyddiad penodi	Ebrill 2003
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Mr Huw Evans
Arolygydd cofnodol	Dr. Neil Trevor Jones
Dyddiadau'r arolygiad	08-11 Mai 2007

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Grŵp blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	54	64	61	52	64	38	35	368

Cyfanswm nifer yr athrawon

	Amser llawn	Rhan - amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	25	8	29.3

Gwybodaeth staffio

Cymhareb disgybl:athro(call) (ac eithrio dosbarthiadau arbennig)	12.6 :1
Cymhareb disgybl : oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	-
Cyfartaledd maint grŵp addysgu	14.8
Cymhareb cyswllt cyffredinol (canran)	84.9%

Canran presenoldeb am y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad								
	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13	Ysgol gyfan
Tymor 1	89.1	87.2	91.9	87.8	77.5	84.5	52.4	84.9
Tymor 2	94.1	92.7	90.8	91.1	88.1	88.3	79.5	89.8
Tymor 3	93.4	93.1	92.5	89.9	89.9	88.8	77.6	90.1

Canran y disgyblion gyda'r hawl i brydau ysgol am ddim	11%
Nifer y disgyblion wedi'u gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	6 dros dro 3 parhaol 0 o leiafrifoedd ethnig

Atodiad 3

Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd cyfnod allweddol 3:

Canlyniadau Asesiadau CA3 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2006 (ffigyrau cenedlaethol 2005)																
Cyfanswm nifer y disgyblion yn B9 : 49																
Canran y disgyblion ar bob lefel																
			D	A	F	W	1	2	3	4	5	6	7	8	EP
Saesneg	Asesiad	Ysgol		2.0					10.2	16.3	44.9	20.4	6.1		
	Athro	Cenedlaethol		1.0				2.0	8.0	21.0	35.0	24.0	8.0		
Cymraeg	Asesiad	Ysgol		2.0	4.7				2.2	17.8	31.1	40.0	2.2		
	Athro	Cenedlaethol		1.0				1.0	4.0	19.0	35.0	30.0	10.0		
Mathemateg	Asesiad	Ysgol		2.0					2.0	16.3	24.5	36.7	18.4		
	Athro	Cenedlaethol		1.0				1.0	6.0	18.0	24.0	32.0	15.0		
Gwyddoniaeth	Asesiad	Ysgol		2.0					2.0	22.4	26.5	30.6	16.3		
	Athro	Cenedlaethol		1.0					6.0	19.0	33.0	27.0	12.0		

D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1
EP Perfformiad Eithriadol, lle mae disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3yn perfformio uwchlaw lefel 8

Canran y disgyblion sy'n cyrraedd o leiaf lefel 5 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf)			
yn ôl asesiad athro			
Yn yr ysgol	71.4	Yng Nghymru	56.0

Canlyniadau Arholiadau Cyhoeddus:

Ar gyfer disgyblion 15 oed, canlyniadau mewn TGAU, Cymhwyster Lefel Mynediad, CGCC a CGC	
Nifer y disgyblion 15 oed ar gofrestr yr ysgol ym mis Ionawr 2006	53
Cyfartaledd sgôr pwyntiau TGAU neu CGCC fesul disgybl	48

Canran y disgyblion 15 oed yn 2006 a:	Ysgol	UA	Cymru
safodd 5 arholiad TGAU neu fwy neu gymhwyster cyfwerth	96	90	88
enillodd o leiaf 5 gradd TGAU A* i C, y cymwysterau galwedigaethol cyfwerth neu gyfuniad o'r ddau	70	63	54
enillodd o leiaf 5 gradd TGAU A* i G, y cymwysterau galwedigaethol cyfwerth neu gyfuniad o'r ddau	94	89	86
enillodd graddau A*-C TGAU mewn mathemateg, gwyddoniaeth, Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf (y dangosydd pwnc craidd)	32	47	40
safodd o leiaf un cymhwyster lefel Mynediad, cwrs byr TGAU neu TGAU	98	99	98
enillodd un TGAU gradd TGAU A*-C neu fwy neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfwerth	89	84	77
enillodd un TGAU gradd TGAU A*-G neu fwy neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfwerth	98	96	93
heb ennill unrhyw radd TGAU neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfwerth	2	4	7
enillodd un cymhwyster lefel Mynediad neu fwy yn unig	0	2	3
enillodd Rhan 1 CGCC, CGCC ar lefel Sylfaenol neu CGC lefel 1	-	-	-
enillodd Rhan 1 CGCC, CGCC ar lefel Sylfaenol neu CGC lefel 2	-	-	-

Ar gyfer disgyblion 17 a 18 oed, canlyniadau mewn Safon uwch/UG, CGCC a CGC	
Nifer y disgyblion 16, 17 a 18 oed ym mis Ionawr 2006	
Nifer y disgyblion a safodd 2 arholiad safon uwch TAG neu fwy neu gymwysterau cyfwerth	18
Nifer y disgyblion a safodd lai na 2 arholiad safon uwch TAG neu gymwysterau cyfwerth	8

	Ysgol	UA	Cymru
Canran y disgyblion a safodd a gyflawnodd 2 neu fwy o raddau A - C	89	68	68
Canran y disgyblion a safodd a gyflawnodd 2 neu fwy o raddau A - E	94	95	94
Cyfartaledd sgôr pwyntiau fesul ymgeisydd yn sefyll 2 neu fwy o bynciau	23	21	20
Nifer y disgyblion a gyflawnodd CGCC Canolradd neu CGC ar lefel 2	-	-	-
Nifer y disgyblion a gyflawnodd CGCC Uwch neu CGC ar lefel 3	-	-	-

UA – Awdurdod Unedol

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Cyn yr arolygiad cafodd yr arolygwyr gyfarfodydd gyda:

- yr uwch dîm rheoli;
- holl staff yr ysgol;
- y corff llywodraethol, a
- rhieni.

Darllenodd y tîm:

- ymatebion i'r holiadur a anfonwyd i'r holl rieni, ynghyd â llythyrau atodol a
- nifer helaeth o ddogfennau'r ysgol.

Yn ystod yr arolygiad arsylwodd arolygwyr:

- bob athro yn addysgu, gan arsylwi 50 o wersi I gyd;
- samplau o waith disgyblion;
- ffeiliau, polisïau a chynlluniau gwaith adrannol, a
- dogfennau ychwanegol o'r ysgol.

Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweliadau gyda:

- phob aelod o'r uwch dîm rheoli;
- arweinyddion pwnc a phenaethiaid dysgu;
- staff addysgu arall;
- staff gweinyddol a chynorthwyol, a
- grwpiau yn cynrychioli disgyblion o bob blwyddyn dysgu.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod Tîm	**Cyfrifoldebau a chyfraniad i'r Cwestiynau Allweddol**
Dr. Neil Trevor Jones Arolygwr Cofrestredig	Crynodeb, argymhellion Cyfrifol am gwestiwn allweddol 1 Cyfrannu at gwestiwn allweddol 7
Gwilym Davies Arolygwr Lleyg	Cyfrannu at gwestiynau allweddol 1,3,4 a 7
Gwilym Williams Arolygydd Tîm	Cyfrifol am gwestiwn allweddol 5
Beryl Portlock Arolygydd Tîm	Cyfrifol am gwestiwn allweddol 2
Margaret Robertson Arolygydd Tîm	Cyfrannu at gwestiwn allweddol 3
Delyth Molyneux Arolygydd Tîm	Cyfrannu at gwestiynau allweddol 4 a 7
Susan Edwards Arolygydd Tîm	Cyfrifol am gwestiwn allweddol 6
Gloria Davies Arolygydd Tîm	Cyfrannu at gwestiwn allweddol 4

Enwebai'r ysgol oedd Ms. Eirwen James, dirprwy bennaeth yr ysgol.
Nid oedd asesydd cymheiriaid.

Contractwr: Cwmni Cynnal
Uned Dechnoleg
Stryd y Bont
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HL

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i lywodraethwyr, staff, disgyblion a myfyrwyr Ysgol Uwchradd Tregaron am eu cydweithrediad yn ystod yr arolygiad.